**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-7-02(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.00pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

## STATWS YR IAITH

## CYFLWYNIAD

Bu statws yr Iaith Gymraeg yn bwnc canolog i'r adolygiad hwn. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar statws swyddogol yr iaith, yr angen am ddeddfwriaeth newydd (neu ddim) a swyddogaeth y Cynulliad wrth godi statws yr iaith. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o rai o'r prif ddadleuon yn y maes hwn ac yn awgrymu rhai materion a themâu posibl i'r Pwyllgor eu hystyried.

***Y wybodaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad***

Roedd yr ymateb yn rhannu'n bedwar pennawd:

- Deddfwriaeth newydd
- Statws swyddogol yr iaith
- Swyddogaeth y Cynulliad
- Posibiliadau technoleg newydd (gweler papur CC-7-02(p.3))

### Deddfwriaeth newydd

Yn ei bapur safbwynt (CC-5-02(p.2a)), dadleuodd Cadeirydd y Pwyllgor nad "swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw creu deddfwriaeth. Os y caiff yr hyn a argymhellir yn ein hadroddiad yn y pen draw, gan gynnwys argymhellion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn ac yn cel eu gweithredu gan y llywodraeth, bydd y Weinyddiaeth, trwy gyfrwng swyddfeydd y Cwnsler Cyffredinol yn edrych ar yr holl oblygiadau". Er gwaethaf hyn, mae rhai o'r farn y dylai'r Pwyllgor hwn bwyso am Ddeddf Iaith ddiwygiedig, mwy cynhwysfawr. Dywed yr Athro Colin Williams yn *Language Revitalisation* fod ymateb y Cynulliad i alwadau o'r fath yn "…acid test of the political commitment of the Assembly to constructing a bilingual society".

Y prif ddadleuon a gyflwynwyd dros ddiwygio Deddf 1993 oedd nad oedd y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i'r sector preifat na'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ac y dylai'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg ddibynnu ar natur y gwasanaeth yn hytrach na natur y darparwr. Mae'r Pwyllgor wedi clywed dadleuon dros sefydlu strwythur matrics o lefelau cyrhaeddiad derbyniol yn y sector preifat yn seiliedig ar natur y gwasanaeth a ddarperir, adnoddau'r darparwr a'r ganran o siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol.

**Statws swyddogol**

Ochr yn ochr â'r galw am ddeddfwriaeth newydd, galwodd nifer o ymatebwyr i'r Gymraeg gael ei chydnabod fel iaith swyddogol yn yr un ffordd â'r ieithoedd Basgeg a Chatalan yn eu gwledydd hwythau. Dadleuai'r ymatebwyr y byddai rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yn gam symbolaidd a fyddai'n dangos y gwerth a roddir ar yr iaith yng Nghymru. Mae'n debyg ei bod yn wir fod rhywfaint o ddryswch a yw'r Gymraeg yn iaith swyddogol ai peidio. Roedd rhai o'r farn bod statws swyddogol wedi ei roi i'r iaith yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993*.

**Swyddogaeth y Cynulliad i godi statws y Gymraeg**

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i ystyried dwyieithrwydd fel thema traws-bynciol yng ngwaith y Cynulliad ac yng ngwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru. Cafwyd galwad ar i bob adran gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith lle y bo hynny'n berthnasol i'w dyletswyddau ac i ddwyieithrwydd gael ei ystyried fel pwnc canolog yn yr un modd â chyfle cyfartal, yn hytrach na'i wthio i'r cyrion. Cafwyd argymhelliad hefyd ym mhapur safbwynt y Cadeirydd am ymagwedd holistaidd o'r fath tuag at yr iaith gan alw am "sefydlu uned strategol barhaus ar lefel uchel o fewn gweinyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n trawsdorri pob adran ac yn cydlynu strategaeth yr iaith Gymraeg." **NODER: Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur ar swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer y cyfarfod ar 1 Mai.**

Y tu allan i'r Cynulliad, gwelwyd bod y defnydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad yn ffactor sy'n codi statws yr iaith ac yn rhoi negeseuon positif i'r rhai hynny sy'n gwneud dewisiadau o ran iaith.

**RHAI MATERION I'R PWYLLGOR EU HYSTYRIED**

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion canlynol:

- Yr angen am ddeddfwriaeth newydd
- Penodi'r Gymraeg yn iaith "swyddogol"
- Dwyieithrwydd fel thema traws-bynciol yng ngwaith y Cynulliad ac ym mhob corff cyhoeddus yng Nghymru.

***** Fe ddosberthir nodyn gan yr Is-adran Gyfreithiol ar y pwynt hwn i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2002**